


# RHAGLEN GYMORTH MATHEMATEG BELLACH CYMRU



## CYLCHLYTHYR

Gwanwyn 2014/15

Rhif 2

### Cynhadledd Blwyddyn 10 Prifysgol Abertawe -Mawrth 2015

Roedd FMSP Cymru yn falch iawn bod Huw Lewis AC, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn gallu mynychu'r gynhadledd. Eisteddodd y Gweinidog i mewn ar ddau weithdy a dywedodd "Cefais fy nharo gan frwdfrydedd yr holl fyfyrwyr wnes i gyfarfod".




Is-ganghellor Prifysgol Abertawe, yr Athro Richard Davies, oedd yng nghwmni y Gweinidog ac ychwanegodd yntau: "... Rydym wedi bod yn falch iawn o groesawu Huw Lewis heddiw i arddangos y prosiect hwn" "mae FMSP yn cyflwyno Mathemateg fel dewis addysg bellach hynod ddiddorol ac apelgar"

Mynychwyd y gynhadledd gan 179 o fyfyrwyr o 10 ysgol o siroedd ar draws De-orllewin Cymru, gan gynnwys Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Sir Gaerfyrddin, CNPT ac Abertawe.

I ddarllen y datganiad i'r wasg yn llawn ewch i : <http://www.swansea.ac.uk/media-centre/latest-news/ministerattendsswanseauniversitytoseestudentsgetinspiredbymaths.php>

### Cynhadledd Blwyddyn 12 Prifysgol Bangor, Abertawe a Chaerdydd



#### Ionawr 2015

Cynhalwyd tair cynhadledd blwyddyn 12 gan FMSP Cymru yn Ionawr 2015 ym Mhrifysgolion Caerdydd, Bangor ac Abertawe. Roedd y digwyddiadau yn llwyddiant gyda dros 150 o fyfyrwyr yn mynychu, er gwaethaf y tywydd garw. Cymerodd pob myfyrwr ran mewn dau weithdy, oedd yn cynnwys "Y Pellter i'r Lleud", "Cymhareb Aur" a "Tamaid o Gauss" a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Katie Speckles, Martyn Parker a Colin Wright.



Enillwyr Cwis Cynhadledd  
Blwyddyn 12  
Cwis Cynhadledd Caerdydd

### Hyfforddi

Ers mis Medi 2014 mae rhagor o fodiwlau wedi cychwyn ac ar hyn o bryd mae FMSP Cymru yn tiwtora 95 o fodiwlau, sef cynnydd o 111% o 2013/14


### Datblygiad Proffesiynol Parhaus Dysgu Pur Pellach 1 yn hyderus

Cofrestrodd 8 athro o bob rhan o Dde Cymru ar gyfer y cwrs 6 mis wyneb-yn-wyneb gydag 8 arall (gan gynnwys 4 o Ogledd Cymru) yn dewis gwneud y sesiynau ar-lein. Mae'r adborth wedi bod yn galonogol iawn ac mae'r rhai oedd yn cymryd rhan bellach yn teimlo'n fwy hyderus o ddsygu FP1 ac wedi mwynhau'r cyfle i ystyried eu haddysgu presennol



### Syniadau Mawr mewn mathemateg Safon Uwch

Cyflwynodd Dr Martin Crossley o Brifysgol Abertawe gwrs undydd i athrawon Lefel A Mathemateg a oedd yn cynnwys Trigonometreg, Calcwlws ac Algebra, roedd yn ddiwrnod gwyhych, a fynychwyd gan dros 20 o athrawon o 7 sir.



"Darparu cipolwg ychwanegol i drigonometreg. Ysbrydoli fy hun ynglŷn â pham rwy'n dysgu Mathemateg". Athro o Sir Benfro

Cicely Griffiths

Ysgol Tre-gŵyr

"Nid yn unig helpodd  
astudio Mathemateg

Bellach i mi gael i fewn i fy Mhrifysgol dewis cyntaf, ond roedd yn gwneud fy mlwyddyn gyntaf gymaint yn haws hefyd".



"Mae'r Mathemateg yr ydych yn astudio ar gyfer Mathemateg Bellach yn union yr hyn yr ydych yn ei wneud yn y Brifysgol, rydych wedi eich paratoi mor dda" Ben Cooke, Ysgol Uwchradd Dinbych, Prifysgol Durham

### Newyddion y wefan

I ddarllen mwy o astudiaethau achos ac i gael gwybodaeth am ddiwyddiadau sydd i ddod, ewch i: [www.furthermaths.org.uk/Wales](http://www.furthermaths.org.uk/Wales)